**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 15 Ionawr 2013**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGANIADAU O FUDDIANT | Ni chyflwynwyd unrhyw fuddiannau personol neu ragfarnus. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2012.<br><br>***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2012 fel cofnod cywir a'u llofnodi gan yr Arweinydd.* |
| **5** | CYFLEUSTERAU ARFORDIROL Y RHYL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet -*<br><br>*(a) yn cymeradwyo'r prosiectau arfaethedig mewn egwyddor a datblygiad Cam 2 achos busnes / cyfiawnhad a ffïoedd Cam 2 hyd at £30,000 i:*<br><br>• *Symud ymlaen gyda datblygu'r dyluniad ac astudiaeth ddichonolrwydd ar gyfer y ganolfan ddŵr newydd yn y lleoliad arfaethedig ger y pwll padlo presennol;*<br>• *Cynnwys ystyriaeth benodol i bwll nofio 50 medr o fewn yr astudiaeth ddichonolrwydd;*<br>• *Ymgorffori cynaliadwyedd strwythur y Tŵr Awyr yn y cynlluniau hyn a datblygu cynigion ar gyfer ei ddefnyddio / ei wella yn y dyfodol;*<br>• *Cydnabod egwyddor dymchwel strwythur presennol yr Heulfan gan arwain at ddatblygu dyluniadau ac astudiaeth ddichonolrwydd ar gyfer gwelliannau i* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *Theatr y Pafiliwn;*<br>• *Cytuno datblygu'r pecyn cyfan (fel un prosiect) i lunio achos busnes manwl;*<br>• *penodi Alliance Leisure Ltd dan delerau'r cytundeb fframwaith presennol i gynorthwyo gyda datblygu'r prosiect;*<br>• *sicrhau bod yr agwedd yn cael ei datblygu ar y cyd â chynlluniau ehangach y Rhyl yn Symud Ymlaen a sicrhau effaith y prosiect ar y cynlluniau hynny;*<br>• *sefydlu Bwrdd Prosiect i fonitro a chyfeirio cynnydd, a*<br><br>*(b) cymeradwyo gwaith brys i'r Tŵr Awyr i leihau peryglon iechyd a diogelwch presennol a gwneud y strwythur yn ddiogel – hyd at derfyn uchaf o £35,000.* |
| **6** | CYFLAWNI CYNLLUNIAU TREF AC ARDAL SIR DDINBYCH | ***PENDERFYNWYD*** –<br><br>*(a) datblygu'r trefniadau a sefydlwyd i gyfnerthu'r Cynlluniau Trefol i'w ehangu yn Gynlluniau Ardal ehangach yn ymgorffori Hyrwyddwyr Cynlluniau Tref, Grŵp Cydgysylltu Cynlluniau Tref a chefnogaeth swyddogion cysylltiedig;*<br><br>*(b) cadarnhau'r cyllid sydd ar gael i weithredu'r blaenoriaethau yn y Cynlluniau Tref a Chynlluniau Ardal ehangach sy'n dod o'r ffynonellau canlynol:*<br><br>• *cyllid blaenoriaeth gorfforaethol ar gyfer 'gwella'r economi lleol'*<br>• *cyllideb refeniw cyllid cymunedol*<br>• *dyraniad cyfalaf cymunedol a chyfalaf cyfatebol*<br><br>*(c) cymeradwyo'r argymhellion gan y Tîm Cydgysylltu Cynlluniau Tref ar ddyraniad* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *rhagarweiniol yn 2012/13 a 2013/14.* |
| **7** | COFRESTRU AWTOMATIG AR GYNLLUNIAU PENSIWN (CYFRIFOLDEB CYFLOGWR A GOBLYGIADAU COST) | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r argymhellion i -*<br><br>*(a) ddechrau cofrestru holl staff newydd neu rai sy'n gymwys, yn awtomatig ar y cynllun pensiwn perthnasol o 1 Mai 2013;*<br><br>*(b) oedi cofrestru awtomatig staff sydd yn y gorffennol wedi penderfynu peidio ag ymuno â'r cynllun perthnasol hyd at 1 Hydref 2017, a*<br><br>*(c) cydnabod y goblygiadau cost sy'n gysylltiedig â gweithredu'r rheoliadau newydd.* |
| **8** | CYLLIDEB 2013/14 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet -*<br><br>*(a) yn cefnogi'r cynigion cyllidebol ar gyfer 2013/14 yn yr atodiadau ac yn argymell hynny i'r Cyngor llawn, a*<br><br>*(b) yn argymell y cynnydd 2.0% sy'n deillio yn lefel y Dreth Gyngor ar gyfer 2013/14 i'r Cyngor llawn.* |
| **9** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *cydnabod y cyllidebau a'r targedau arbed ar gyfer y flwyddyn a'r cynnydd o gymharu â'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd.* |
| **10** | BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *cydnabod Blaenraglen Waith y Cabinet.* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | |
| **11** | DYFARNU CYTUNDEB FFRAMWAITH AR GYFER DARPARU DYFEISIAU AML-SWYDDOGAETH | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn awdurdodi dyfarnu'r fframwaith Dyfais Aml-swyddogaeth i'r cyflenwr a enwyd yn yr adroddiad.* |